



# Croeso i Ysgol Bodhyfryd



## Ein Gweledigaeth a'n gwerthoedd

*Gyda'n gilydd, ein nôd yw creu cymuned hapus a diogel lle trysorir ein diwylliant a'n hiaith.*

*Y gwerthoedd sy'n bwysig i ni:*

### Parch

Mae pawb yn yr ysgol yn unigryw – yn ddysgwyr a theuluoedd, yn staff a rhanddeiliaid. Fel ysgol, parchwn farn a theimladau pawb.

### Cymru a chymreictod

Rydym yn dathlu iaith a diwylliant Cymru ym mhob rhan o'n gwaith.

### Cymuned croesawgar a chyfoes

Rydym yn chwarae rhan llawn ym mywyd ein cymuned ac mae'r gymuned yn chwarae rhan llawn ym mywyd Ysgol Bodhyfryd. Rydym yn dathlu ac yn gwarchod ein cynefin. Gan weithio gyda'r gymuned, byddwn yn creu dyfodol disglair i'n disgyblion.

### Hapusrwydd

Mae ethos pob dosbarth a phrofiadau dysgu yn ysbrydoli ein dysgwyr. Rydym yn sicrhau bod pob dysgwr yn mwynhau profiadau ac yn datblygu cymhelliant wrth ddysgu. Mae'r disgyblion yn edrych ymlaen i ddod i'r ysgol i ddysgu.

### Mentro

Rydym yn cefnogi ein gilydd yn yr ysgol, yn ddysgwyr, a staff, i fentro'n hyderus, i feddwl yn greadigol a thorri tir newydd ac i ddysgu o'n llwyddiannau a'n methiannau.

### Cefnogi a chydweithio

O fewn ein dosbarthiadau, ein hysgol ac ar draws ein clwstwr o ysgolion, rydym yn cydweithio ac yn cefnogi ein gilydd i ddatblygu a dysgu'n barhaus.

## Cymuned gynhwysol

Fel ysgol rydym yn sicrhau bod anghenion pob dysgwr yn cael eu diwallu trwy ddarpariaeth addysgu a dysgu o ansawdd uchel. Mae ein Darpariaeth Gyffredinol yn cynnwys: addysgu dosbarth cyfan, gwahaniaethu effeithiol, gwaith grŵp cydweithredol, ymyriadau. Bydd ysgol hefyd yn gweithio gyda rhieni neu ofalwyr i wneud yn siŵr bod gan pob plentyn yr help sydd ei angen i wneud cam ymlaen.



Rydym yn cynnig cyfloedd i bawb llwyddo yn ôl eu gallu gan ddilyn ein diddordebau o fewn pob dosbarth. Rydym yn cwrdd anghenion dysgu pawb. Rydym yn dathlu'r gwahaniaethau sydd rhyngom. Rydym yn adnabod ac yn cynllunio ar gyfer unigolion mwy abl a thalentog, ac yn adnabod a chefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol.

O fewn yr ysgol mae darpariaeth ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol, Mae'r Berllan ar gyfer disgyblion 3-7, a'r Uned CA2 ar gyfer disgyblion 7-11.

Rydym hefyd yn cydweithio ag amrywiaeth o asiantaethau i gefnogi: iaith a lleferydd, iechyd a lles meddwl, ymddygiad, rhianta, cownsel, presenoldeb, cefnogaeth darllen â phlant i rieni.

Mae Iechyd a Lles yn ffocws ac yn flaenoriaeth uchel ar draws popeth a wnawn yn Ysgol Bodhyfryd. Mae pob dysgwr yn cael mynediad at ein hymyriadau arbenigol fel ELSA, SAP, grwpiau ffrindiau, ynghyd â chyfleoedd dysgu awyr agored i gyfoethogi eu dysgu.

## Disgwyliadau uchel

Mae'r cwricwlwm newydd yn daith dysgu unigryw i bawb. Bydd adegau pan byddwn yn symud ymlaen yn gyflym, yn arafu i sicrhau eu bod yn deall y pwnc. Nid yw symud ymlaen bob amser yn gysylltiedig â'u hoedran. Byddant yn symud ymlaen fel:

- mae eu gwybodaeth yn cynyddu;
- mae eu dealltwriaeth o bethau'n dyfnhau;
- mae eu sgiliau cyfathrebu yn tyfu;
- mae eu sgiliau'n gwella.

### Ŷsesu

Nid yw symud ymlaen bob amser yn gysylltiedig â'u hoedran. Byddant yn symud ymlaen fel mae eu gwybodaeth yn cynyddu, fel mae eu dealltwriaeth o bethau'n dyfnhau, fel mae eu sgiliau cyfathrebu yn tyfu ac fel mae eu sgiliau'n gwella.

### Camau cynnydd

Mae 5 cam cynnydd o fewn y Cwricwlwm. Mae egwyddorion cynnydd yn sail i'n cynllunio ar gyfer cynnydd dysgwyr ar draws y meysydd dros amser.

## Yr egwyddorion cynnydd yw:

- Ehangder a dyfnder gwybodaeth cynyddol
- Dyfnhau'r dealltwriaeth
- Mireinio a soffistigeiddrwydd cynyddol wrth ddefnyddio a chymhwyso sgiliau
- Creu cysylltiadau a throsglwyddo dysgu i gyd-destunau
- Cynyddu effeithiolrwydd.

## Bydd yr ysgol yn cyflawni dibenion asesu'r cwricwlwm:

- Cefnogi'r dysgwyr unigol yn barhaus o ddydd i ddydd
- Myfyrio ar gynnydd dysgwyr unigol dros amser
- Deall cynnydd grwpiau er mwyn myfyrio ar arferion (gwneud defnydd o brofion cenedlaethol a safonedig)

## Dathlu llwyddiant

Rydym fel ysgol yn credu bod dathlu ein llwyddiant yn holl bwysig. Mae sicrhau bod y disgyblion a'r gymuned yn ymfalchio yn yr hyn a wna'r ysgol yn allweddol.

## Deinameg ac arloesol

Trwy fentro mae tyfu hyder a dysgu. Mae'r ethos o fentro a chreadigrwydd wrth drïo a thrio eto yn sylfaen i'n plant ac addysgwyr. Rydym yn sefydliad sy'n dysgu ac yn croesawu arbrofi â dulliau cyfoes yn seiliedig ar ymchwil cyfredol

## Llais y plentyn

Mae llais y disgybl yn allweddol o bwysig yn Ysgol Bodhyfryd a byddwn yn sicrhau fod y cwricwlwm yn tynnu ar lais ein dysgwyr ac yn ymateb i'w anghenion, eu profiadau a'u mewnbwn i'w dysgu. Bydd ein staff yn cynllunio profiadau dysgu dilys sy'n herio ac yn ysgogi anghenion a chyd destunau unigol holl blant ein hysgol.

Mae ymweliadau addysgol yn bwysig i ni er mwyn ennyn diddordebau a thanio eu brwdfrydedd. Gyda'r disgyblion, byddwn yn cynllunio cwricwlwm creadigol, diddorol, heriol ac amrywiol sy'n dilyn diddordebau y disgyblion ac yn magu hyder i ymateb i heriau yn bositif.



## Dysgwyr creadigol

Byddwn yn cynllunio profiadau dysgu ar draws y meysydd dysgu a phrofiad sy'n ymgorffori'r sgiliau trawsgwricwlwaidd sef llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol gan alluogi'r dysgwyr i ddatblygu, ymarfer a chymhwyso'r sgiliau yn llawn ac yn cael cyfleoedd i gymhwyso eu gwybodaeth trwy brofiadau go iawn, ymarferol a chreadigol. Mae cyfle i ddysgu tu allan yn bwysig i'n disgyblion.

## Parch

Mae trafod perthnasoedd iach a chael rhyddid i fod yn ni ein hunain a pherthyn yn rhan annatod o'n gwerthoedd.

Rydym yn croesawu pob aelod o'n gymuned i'r ysgol pa bynnag, crêd, hîl, iaith, cefndir a, rhywedd.

## Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg


Bydd dysgwyr yn Ysgol Bodhyfryd yn cael cyfleoedd i archwilio holl gysyniadau gwerthoedd a moesau crefyddol a byddant yn archwilio pwysigrwydd perthynas credoau a moesau crefyddol ag agweddau eraill ar fywyd, cymdeithas a'r byd. Nid yw credoau a moesau crefyddol yn y cwricwlwm yn ymwneud â gwneud dysgwyr yn grefyddol neu'n anghrefyddol; mae ei haddysgu yn eu hyrwyddo i fod yn agored, diduedd a pharchu eraill.

Mae ein darpariaeth yn gynhwysol ac yn adlewyrchu amrywiaeth yn ogystal â dysgu sy'n datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o safbwyntiau a gwerthoedd amrywiol ac amrywiaeth o berthnasoedd. Byddwn hefyd yn dysgu sut i ymdrin â phwysau gan gyfoedion.



## Ein cwricwlwm

*Cwricwlwm yw popeth rydym yn dysgu a gwneud yn yr ysgol er mwyn tyfu i fod yn ddinasyddion hapus sy'n helpu eraill. Rydym yn cynnig cwricwlwm eang sy'n rhoi ystod o brofiadau bywyd go iawn i'n disgyblion*



### Pam bod angen cwricwlwm newydd?

Er mwyn creu hinsawdd ble mae'n disgyblion yn dysgu i fyw ac yn byw i ddysgu mewn byd sy'n newid yn barhaus.

- Mae'r byd yn newid. Mae yna lawer o heriau newydd y bydd angen technoleg newydd a syniadau newydd arnynt.
- Mae angen yr wybodaeth, y sgiliau a'r profiadau ar eich plentyn i lwyddo. Bydd cwricwlwm ysgol eich plentyn yn helpu gyda hynny.
- Nid yw'r cwricwlwm yn ymwneud yn unig â'r hyn maen nhw'n ei ddysgu. Mae hefyd yn ymwneud â sut maen nhw'n dysgu a'r rhesymau pam maen nhw'n dysgu

## Beth sy'n bwysig?

Yr hyn sy'n bwysig yw y bydd y gwersi yn datblygu creadigrwydd, yn wersi ag ystyr bywyd go iawn, yn cael cyfle i fyfyrion a meddwl am yr hyn a ddysgwyr ac yna yn symud ymlaen ac yn dysgu meysydd eraill sy'n eu cysylltu â gweddill y byd. Mae'r cwricwlwm yn ymwneud â chysylltu dysgu. Yn ogystal a dysgu sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol, mae 6 maes dysgu a phrofiad.

Byddwn yn datblygu'r sgiliau a'r cysyniadau sydd o fewn y 27 datganiad o'r hyn sy'n bwysig yn y meysydd dysgu a phrofiad dros gyfnod y disgyblion ym Modhyfyd. Wrth ail ymweld byddwn yn ehangu a dyfnhau y sgiliau a'r cysyniadau hyn er mwyn sicrhau cynnydd yn y dysgu sy'n briodol i gamau datblygu ein dysgwyr.

### Y 12 Egwyddor Pedagogaid

1. Canolbwyntio ar gyflawni'r 4 diben.
2. Heriwch y dysgwyr a phwysleiswch bwysigrwydd ymdrech barhaus. Cyfleu disgygliadau uchel, cyraeddadwy.
3. Defnyddio ystod o ddulliau addysgu.
4. Datblygu sgiliau datrys problemau, sgiliau creadigol a'r gallu i feddwl yn greadigol.
5. Adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol. Ennyn diddordeb.
6. Creu cyd-destunau dilys.
7. Rhoi egwyddorion asesu ffurfiannol ar waith.
8. Ymestyn o fewn ac ar draws y Meysydd Dysgu.
9. Atgyfnerthu ac ymarfer sgiliau trawsgwricwlaidd - llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol.
10. Datblygu dysgwyr i gymryd cyfrifoldeb cynyddol am eu dysgu a'u hunain. Datblygu fel dysgwyr annibynnol.
11. Hyrwyddo datblygiad cymdeithasol ac emosiynol a pherthnasoedd cadarnhaol.
12. Hyrwyddo cydweithio.



## Beth yw'r cwricwlwm?

### Y 4 diben

Mae'r pedwar diben yn sail i'r cwricwlwm a bydd yn sylfaen i bopeth mae'r disgyblion yn ei dysgu. Bydd pob plentyn a pherson ifanc yn cael cefnogaeth i fod yn:

- **Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog** sy'n defnyddio eu holl sgiliau i chwilio am heriau, eu datrys a'u mwynhau, sy'n gyfathrebwyr effethiol dwyieithog ac sy'n barod i ddysgu gydol eu bywydau.
- **Gyfranwyr mentrus, creadigol** sy'n cyfrannu'n greadigol a beirniadol i greu syniadau a chynnyrch, ac yn gynyddol hyderus i fynegi emosiynau drwy wahanol gyfryngau ac sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith.
- **Ddinasyddion egwyddorol, gwybodus** sy'n ymwybodol o'u hunaniaeth, eu diwylliant a'u lle yn y gymuned a'r byd ehangach gan barchu anghenion a hawliau pobl eraill a'r blaned.
- **Unigolion iach, hyderus** sy'n meithrin eu lles meddyliol ac emosiynol drwy ddatblygu hyder, cadernid, sgiliau ac empathi i fyw eu bywyd pob dydd mor hapus ag a gallan nhw, ac yn meddu ar werthoedd ysbrydol ac egwyddorol ac yn gwneud penderfyniadau pwylllog ynghylch eu ffordd o fyw a chadw'n diogel.

### 6 maes dysgu

Mae'r cwricwlwm newydd yn ymwneud â chysylltu dysgu. Yn ogystal â dysgu sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol, bydd chwech maes dysgu a phrofiad (MDaPh). Efallai na fydd eich plant yn cael gwersi o dan yr enwau yma, ond mae popeth maen nhw'n ei ddysgu yn cysylltu â'r ardaloedd hyn.

- **Celfyddydau Mynegiannol** Archwilio'r celfyddydau er mwyn iddyn nhw ddysgu defnyddio eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dychymyg i greu. Dysgu i werthfawrogi'r celfyddydau ac i fyfrio ar eu gwaith eu hunain.
- **Dyniaethau** Archwilio hanes, daearyddiaeth, gwleidyddiaeth, crefyddau, busnesau, diwylliannau a chymdeithasau yng Nghymru ac o gwmpas y byd.
- **Gwyddoniaeth a Thechnoleg** Deall y pwysigrwydd o wyddoniaeth a thechnoleg. Dysgu am ddylunio a pheirianneg, pethau byw, mater, grymoedd ac egni a sut mae cyfrifiaduron yn gweithio.
- **Mathemateg a Rhifedd** Deall niferoedd. Defnyddio symbolau yn mathemateg. Archwilio siapiau a mesur. Dysgu am ystadegau a thebygolrwydd.
- **Iechyd a Lles** Dysgu am fwyta'n iach a pherthnasoedd iach. Dysgu gwneud penderfyniadau da a delio â dylanwadau. Dysgu sut i edrych ar ôl eu hiechyd meddwl a lles emosiynol.
- **Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu** Dysgu am ieithoedd. Deall a defnyddio'r Gymraeg, Saesneg ac ieithoedd rhyngwladol eraill. Deall a chreu llenyddiaeth.

## Sut ydym ni'n dysgu?

Athrawon yw hwyluswyr y dysgu. Gan ystyried anghenion, safbwyntiau a chyfnodau dysgwyr, byddant yn dylunio profiadau hwyliog, heriol a blaengar. Bydd dysgwyr yn cael cyfleoedd i ddylanwadu ar eu dysgu. Bydd staff addysgu fel yr arbenigwyr yn hyfforddi'r dysgu i gyfeiriad priodol gan ystyried safbwyntiau, syniadau, profiadau a diddordebau'r dysgwyr. Bydd dysgwyr yn dylanwadu ar ddyluniad eu hamgylchedd dysgu. Cânt gyfleoedd i weithio mewn ffyrdd sy'n cyfoethogi eu dysgu a hefyd i gyflwyno eu gwaith yn eu ffordd bersonol unigryw eu hunain. Bydd llawer o gyfleoedd i ymholi mewn amgylchedd diogel.

### Bydd y sgiliau cyfanol a'r themau trawsgwricwlaidd yn cydblethu:

#### Sgiliau Cyfannol:

Cynllunio a threfnu, Creadigrwydd ac arloesi, Effeithiolrwydd personol, Meddwl yn feirniadol a datrys problemau.

#### Thema Trawsgwricwlaidd

Cyd-destunau Lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol, Addysg Cydberthynas a Rhwioldeb, Addysg Hawliau Dynol a Chonfensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau Plant, Amrywiaeth, Gyrfaoedd a Phrofiadau Cysylltiedig a Byd Gwaith.

### Cysyniadau ac elfennau gorfodol

Mae Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 yn nodi'r elfennau gorfodol canlynol sydd, ac eithrio Saesneg, yn rhychwantu continiwm dysgu 3 i 16 oed. Wrth ddylunio ein cwricwlwm byddwn yn ystyried sut y byddwn yn cynnwys yr elfennau gorfodol hyn:

- sgiliau trawsgwricwlaidd llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol
- enwau'r meysydd dysgu a phrofiad (Meysydd)
- addysg cydberthynas a rhywioldeb
- crefydd, gwerthoedd a moeseg
- Cymraeg a Saesneg

### Agweddau statudol

Rydym hefyd wedi rhoi ystyriaeth i'r agweddau statudol canlynol sydd o fewn Fframwaith Cwricwlwm i Gymru wrth ddylunio ein cwricwlwm:

- Gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â byd gwaith
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Confensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)
- Confensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (UNCPRD)
- Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

## Ein teulu



### CRHA

Mae'r gymdeithas rhieni ac athrawon yn allweddol er mwyn cefnogi'r ysgol i godi arian er mwyn datblygu'r ysgol ac er mwyn cyfoethogi profiadau'r disgyblion. Trefnir nifer o weithgareddau er mwyn sicrhau bod ein rhieni a'n gofalwyr yn teimlo'n rhan o gymuned yr ysgol.

### Llywodraethwyr

Mae gennym dîm o Lywodraethwyr gweithgar sy'n ymweld â'r ysgol er mwyn siarad gyda staff a'r disgyblion. Mae'r Llywodraethwyr yn ffrind beirniadol i'r ysgol, sy'n barod i herio ac i gwestiynu.

### Ein Cymuned Leol

Rydym yn Ysgol Gymraeg ar gyrion Erddig . Mae gennym falchder o berthyn i ddinas Wrecsam ac fel ysgol yr ydym yn dathlu ein hanes cyfoethog. Mae hanes a llwyddiant y tîm pel droed yn hynod o bwysig i'n disgyblion. Fel ysgol, rydym yn gweithio'n agos gyda'n cymuned i sicrhau bod ein hamgylchedd leol yn hygyrch ac yn rhan hanfodol o'n cwricwlwm. Rydym yn darparu cyfleoedd a phrofiadau sy'n dathlu treftadaeth ein cymuned leol â balchder chenedlaethol yn ogystal ag archwilio y byd ehangach. Rydym yn falch o'n diwylliant a'n treftadaeth yma yn Wrecsam ac yn Ngymru ond yr ydym hefyd yn dathlu diwylliannau gwahanol.

### Ein Cynor Ysgol / Cyngor Eco

Mae gennym gyngor ysgol a chyngor eco gweithgar, sy'n chwarae rôl bwysig ym mhenderfyniadau a pholisiau'r ysgol. Fel ysgol eco ac iach sydd wedi ennill gwobrau, rydym yn parhau i hyrwyddo pwysigrwydd ffordd iach o fyw. Mae gofalu am y blaned a datblygu perthnasoedd iach yn allweddol o bwysig i ni. Mae hyrwyddo lles a iechyd meddwl yn ganolog i waith y cyngor eco.



### Ein Rhieni

Rydym yn cyfathrebu'n effeithiol gyda rhieni/gofalwyr yn barhaus i feithrin perthnasoedd cadarnhaol er mwyn eu cynnwys mewn deialog bwrpasol ac ystyrlon. Trwy helpu rhieni/gofalwyr, gallant gefnogi dysgu eu plant. Rydym wedi datblygu a gweithredu prosesau sy'n cefnogi cyfathrebu drwy ffordd effeithiol wrth ymgysylltu â rhieni/gofalwyr. Wrth ddatblygu'r prosesau hyn, rhoddwyd ystyriaeth i ddefnyddio amrywiaeth eang o wahanol ddulliau cyfathrebu, e.e. wyneb yn wyneb, digidol drwy SeeSaw ac e-bost.

### Ein Clwstwr

Yr ydym yn gweithio'n agos gyda Chlwstwr Ysgol Morgan Llwyd. Byddwn yn cydweithio'n agos er mwyn sicrhau bod continiwm dysgu rhwng y cyfnodau er mwyn sicrhau dilyniant priodol yn y dysgu a'r addysgu.

### Ein Hymwelwyr

Mae ymwelwyr yn cyfoethogi dysgu'r disgyblion. Byddwn yn trefnu ymwelwyr i ddod i'r ysgol er mwyn rhannu eu profiadau gyda'r disgyblion.

### Ein Helusennau

Rydym yn ysgol sy'n cefnogi elusennau amrywiol ac mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd i drefnu digwyddiadau.

### Yr Urdd

Rydym yn cydweithio'n agos gyda'r Urdd er mwyn i'r disgyblion gael cyfathrebu yn y Gymraeg, ac i gael ystod o brofiadau gwerthfawr.

Bydd y ddogfen yn cael ei adolygu yn ystod y flwyddyn.

